# YMWELIADAU SAFLE

## Cofnodion y cyfarfod rhithiol a gynhaliwyd ar 19 Hydref, 2022

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Neville Evans (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Geraint Bebb, Jeff Evans, Glyn Haynes, Trefor Ll Hughes MBE, Dafydd Roberts, Ken Taylor, Liz Wood.<br><br>Y Cynghorydd Nicola Roberts (Aelod Portffolio Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd) |
| **WRTH LAW:** | Arweinydd Tîm – Cynllunio (GJ),<br>Swyddog Cynllunio (HR),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr John I Jones, Jackie Lewis, Robin Williams. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Aelodau Lleol: Y Cynghorwyr Carwyn Jones ac Alun Roberts (cais 1); Margaret M Roberts ac Ieuan Williams (cais 2) |

---

**1** **HHP/2022/26 - CAIS LLAWN AR GYFER DYMCHWEL, ADDASU A CHODI ESTYNIADAU YN TAN YR ALLT BACH, LLANDDONA**

Fe wnaeth y Swyddog Cynllunio amlinellu'r cynnig a dangos fideos o'r safle. Edrychodd yr Aelodau ar gynlluniau o'r annedd presennol ynghyd â'r addasiadau ac estyniadau arfaethedig. Dangoswyd fideo o'r ffordd fynediad sy'n mynd heibio'r safle yn ogystal.

Cyfeiriodd yr Aelodau Lleol, y Cynghorwyr Carwyn Jones ac Alun Roberts at y ffordd gul sy'n mynd heibio'r safle i lawr i'r traeth. Cyfeiriwyd at leoliad yr annedd o fewn y AHNE a'r cynnig i ymestyn yr eiddo.

**2** **HHP/2022/171 - CAIS LLAWN AR GYFER ADDASU AC YMESTYN YNGHYD Â CHODI BALCONÏAU JULIET YN AWEL Y BRYN, TRIGFA, MOELFRE**

Fe wnaeth y Swyddog Cynllunio amlinellu'r cynnig a dangos fideos o'r safle. Nododd bod y cynnig ar gyfer ymestyn yr eiddo o fod yn eiddo 3 ystafell wely i fod yn eiddo 5 ystafell wely. Edrychodd yr Aelodau ar gynlluniau o'r annedd presennol ynghyd â'r addasiadau ac estyniadau arfaethedig.

Cyfeiriodd yr Aelodau Lleol, y Cynghorydd Margaret M Roberts ac Ieuan Williams at y gallu i letya ychwaneg o gerbydau ar y safle oherwydd y ffordd ystâd gul.

**Y CYNGHORYDD NEVILLE EVANS**
**CADEIRYDD**